O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 214 (Cy. 27)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy) (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Chwefror 2013* |
| *Yn dod i rym* | *15 Chwefror 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Twnelau Gibraltar, Trefynwy, Sir Fynwy (Gwaharddiad a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20:00 o'r gloch ar 3 Mawrth 2013 ac yn dod i ben pan gaiff arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o’r gefnffordd” (“*the length of the trunk road*”) yw’r darn hwnnw o’r gefnffordd yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy sy’n ymestyn o’r pwynt croesi tua 50 o fetrau i’r gogledd o Dwnelau Gibraltar i’r pwynt croesi tua 400 o fetrau i’r de o’r Twnnelau hynny;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i baragraff 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd gael ei yrru ar y gerbytffordd tua’r dwyrain na’r gerbytffordd tua’r gorllewin ar y darn o’r gefnffordd.

**4.**—(1) Tra bydd symud traffig wedi ei wahardd gan erthygl 3 ar gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd ond, yn unol ag erthygl 7, heb ei wahardd ar gerbytffordd tua gorllewin y gefnffordd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua gorllewin y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r dwyrain.

(2) Tra bydd symud traffig wedi ei wahardd gan erthygl 3 ar gerbytffordd tua gorllewin y gefnffordd ond, yn unol ag erthygl 7, heb ei wahardd ar gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu iddo fynd ar lôn allanol cerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd i unrhyw gyfeiriad heblaw tua’r gorllewin.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd.

**Atal**

**6.** Drwy hyn, atelir darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2007(**1**) mewn perthynas â’r darnau o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 ar yr adegau hynny y mae’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd

(**1**) O.S. 2007/1333 (Cy.126).

arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 4 Chwefror 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru